



Tri o aelodau Bethlehem fu'n brysur yn y Cyngerdd at elusen MND ar Fai 7fed: (uchod) Sara Gibson oedd yn llywio'r noson ac (isod) Iwan Ellis (prifathro Ysgol Gwaelod-y-Garth) a Tania Wilson Price oedd yn arwain côr yr ysgol. (gweler tud 6)

Cloi'r Drws

Daeth tymor y clwb trafod 'Drws Agored' i ben ddiwedd Mawrth yng nghwmni awdur y llyfr fu'n destun trafod drwy'r gaeaf. 'Menter Ffydd' (Vivian Jones) oedd y maes llafur eleni a chafwyd trafodaethau bywiog ar wahanol benodau'r llyfr o Athrawiaeth y Drindod i Gristnogaeth a Chelfyddyd. Braf iawn felly oedd cael cwmni'r Parchedig Vivian Jones i gloi'r tymor pan oeddem yn trafod Seicoleg a Ffydd. Teithiodd atom bob cam o'r Hendy i agor y noson ac i gloi'r tymor. Doedd dim taw ar y seicolegwyr proffesiynol na'r seicolegwyr amatur yn ein mysy! Er mai arbrawf oedd 'Drws Agored' am dymor y gaeaf 2009/10 fe benderfynwyd eisoes i barhau i gyfarfod yn yr hydref gyda maes llafur gwahanol. Bydd y drws ar agor o ddiwedd Medi ymlaen i unrhywun a hoffai droi i mewn ar drydedd nos lau y mis.

Agor Drws

Fore Sul Mai 9fed, yng Nghymuned Mawr Mai, fe agorwyd y drws i bedwar aelod ifanc i ymuno â'r eglwys. Pedwar o fechgyn ifanc oedd yn dewis ymaelodi y tro hwn. Mae un yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf a'r tri arall yn ddisgyblion ym Mhlasmawr. Steffan Llewellyn sydd yng Nglantaf, a'i fryd ar fynd i Gaergrawnt i astudio'r gwyddoniaethau. Mae'r tri arall, yr efeilliaid Seth a Dafydd Griffiths a Gruffydd Cartwright hefyd yn astudio Gwyddoniaeth Driphlyg ymhlith eu pynciau. Ar restr eu diddordebau mae'r pedwar yn nodi 'chwaraeon' – pêl-droed, rygbi, criced a golff – yn ogystal â pherfformio yn nramâu, bandiau a sioeau cerdd eu hysgolion. Ac mae dau ohonynt yn 'high fliers' gyda'r cadetiaid awyr! A chodwyd y gynulleidfa i'r entrychion ym Methlehem fore Sul.

R. Alun



Dyma nhw! Ein pedwar aelod newydd! O'r chwith gyda'r Gweinidog: Seth Aneurin Griffiths (Creigiau), Steffan Llewellyn (Yr Eglwys Newydd), Dafydd Tomos Griffiths (Creigiau) a Gruffydd Cartwright (Llandaf)

Rhys Dafis ar y copa!



Enwebu a Dewis
ELUSEN
2010-11

Enwebu: Mehefin 27
Dewis: Gorffennaf 11

SWPER

HAF

a chyflwyno sic
i elusen
Cymdeithas Clefyd
Motor Neuron

Pnawn Sul
Gorffennaf 11 am 5.00

Fel rhan o ymdrech Bethlehem i godi arian at ein helusennau, dringodd Rhys Dafis i gopa mynydd uchaf cadwyn yr Atlas ym Moroco dros wyliau'r Pasg. Mae copa mynydd "Jbel Toubkal" yn 13,672 troedfedd uwchben lefel y môr (4,167m). Bydd hanner y swm a gasglodd Rhys gan ei noddwyr yn mynd at elusen eleni – sef y 'Motor Neurone Disease Association' a'r hanner arall at 'BanglaCymru', elusen y llynedd.

Medde Rhys "Dw i'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi fy noddi - dros £1,800 heb gynnwys ad-hawlio rhodd cymorth. Roedd hynny'n sbardun i ddal i ddringo'r rhewlif a'r awyr yn fain ac yn brin o ocsigen. Diolch i'r Drefn, roedd y tywydd yn garedig a chefais i ddim problemau uchder na stumog! Profiad anhygoel dridiau ynghynt oedd sefyll ar gyrion y Sahara yn Ouarzazate, lle roedd arwydd ffordd yn dweud "Timbuktu", a gweld mynyddoedd uchel dan eira yn union tu ôl imi! A dyna fi, yn fuan wedyn, yn sefyll ar eu copa! Gobeithio bydd y swm a godais yn gymorth i rai llai ffodus na fi i ddringo eu mynyddoedd hwythau."

...a gwaith
Rhys a Delyth
ar y brig

*Roedd yna enwau cyfarwydd i ni fel eglwys ymhlith enillwyr gwobrau BAFTA am eleni. Aeth y wobr am y Cyfarwyddwr Ffilm Gorau i **Rhys Powys**, Llandaf, am ei waith ar "Ryan a Ronnie". Dyfarnwyd 4 'BAFTA' i'r ffilm am y ddau ddiddanwr – Actor Gorau: Aled Pugh; Awdur: Meic Povey; Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth: Peter Thornton – ac i Rhys wrth gwrs. Bu'r ffilm ar daith drwy Gymru llynedd ac ar S4C dros y Nadolig.*

*Ffilm arall fu ar daith ac ar S4C oedd "Cwcw", wedi ei hysgrifennu, ei chynhyrchu a'i chyfarwyddo gan **Delyth Jones**, Gwaelod-y-Garth, ddaeth a'r BAFTA am yr Actores Orau i Eiry Thomas ac am y Trac Sain Cerddorol Gwreiddiol Gorau i John Hardy.*

Llongyfarchiadau i Rhys a Delyth.

Crwydro Powys



Diolch i Dafydd, ein gyrrwr blynyddol amyneddgar, cafodd tair ar ddeg o 'ferched' y capel gyfle i fynd ar drip eleni eto. Ar ôl y clebran di-baid ar y bws, braf oedd cyrraedd Canolfan Trefeca a chael coffi a rhywfaint o hanes diddorol y Ganolfan gan Mair Jones, un o'r rheolwyr. Codwyd yr adeilad presennol ar safle bwthyn teulu Howell Harris ac yno y sefydlodd y gymdeithas a enwyd yn 'Teulu

Trefeca' ym 1752. Bu aelodau'r Teulu yn byw yno gan rannu eu heiddo ymysg ei gilydd tan tua 1838 ac mae'r syniad o'r Teulu yn parhau hyd at heddiw gan fod rhwydwaith o bobl yn dal i ddod at ei gilydd yn achlysurol am benwythnos i encilio yn nhawelwch heddychlon Trefeca. Caiff y ganolfan ei ddefnyddio hefyd ar gan nifer o gapeli, eglwysi a chymdeithasau dros Gymru gyfan sy'n golygu bod gweledigaeth Howell Harris yn dal yn fyw hyd heddiw. Ym 1906, sefydlwyd Trefeca yn Goleg Rhagbaratoawl ar gyfer dynion oedd am gael yr hyfforddiant i fynd i'r weinidogaeth ac addysgwyd tua 1000 o fyfyrwyr yno rhwng 1906 a 1964. Diddorol oedd clywed gan Eirlys bod T.J. wedi cyrraedd yno yn ddyn ifanc tua 18 oed ac mai yno y clywodd eiriau Gweddî'r Arglwydd yn Saesneg am y tro cynta!

Ar ôl ffarwelio â Mair a Threfeca a theithio drwy brydferthwch Powys, fe gyrhaeddod ni dref unigryw'r Gelli Gandryll a'r cyfle i brofi diwyllïannau eraill oedd o ddi-ddordeb i ni i gyd, sef siopa a bwyta! Chawsom ni ddim ein siomi yn y siopau ond rhaid cyfaddef mai'r siopau dillad yn hytrach na'r siopau llyfrau aeth â bryd rhai ohonon ni! Cyn pen dim roedd hi'n amser cwrdd i gael cinio hyfryd yn y 'Swan', lle diddorol sy'n llawn iawn adeg Gwyl y Gelli mae'n siŵr!

Roedd y diwrnod wedi hedfan ac falle'n bod ni dipyn tawelach ar y bws ar y ffordd nôl. Diolch i Eirlys a Mary Edwards am drefnu'r trip, i Mags a Judith am geisio trefnu'r bil bwyd ac yn arbennig i Dafydd am wneud yn siŵr bod bws ar ein cyfer a'n gyrru'n ddiogel! Chwarae teg, mae'n barod i fynd â ni flwyddyn nesa eto ond i ble? Oes syniad gan rhywun?

Carol Davies

Blwyddyn arall o weithgareddau'r Cwrdd Merched wedi dod i ben a ninne wedi mwynhau rhannu'r profiadau. Braff gweld bod cyfartaledd oedran y Merched yn mynd yn iau bob blwyddyn!

Agorwyd y tymor gydag ymweliad a llyfrgell y dre' pan gafodd nifer ohonom agoriad llygad wrth glywed am yr holl gyfleusterau sydd ar gael yno. Ond ydyn ni'n ffodus i gael byw yng nghanol manteision prifddinas fel Caerdydd?

Oherwydd yr eira a'r holl wleda a wnaethom, dim ond tri siaradwr a ddaeth atom eleni. Mae Nia Brown o'r Eglwys Newydd wedi ymddiddori mewn nyddu gwlan a chawsom sgwrs hynod diddorol ganddi ar hanes y grefft ac arddangosiad o'r broses.

Ym mis Chwefror fe gawsom sgwrs arbennig iawn gan y Gweinidog. Soniodd am y llythyr a fu rhwng ei dad a'i fam-gu dros yr adegau pan oedd ei dad yn y coleg,

***Eira,
gwleda a
mynd yn
iau?***

*Ond yn ôl
Cath Edwards
fe fu
gweithgareddau
eraill pwysicach!*

yn y rhyfel byd cynta', ac yn y Weinidogaeth. Roedd y cyfan yn rhoi portread hanesyddol o gymdeithas y cyfnod.

I gloi'r tymor daeth yr organydd Peter Thomas i sôn am ei daith i Fangladesh a chawsom ni bortread gwych trwy gyfrwng uwch-dafluniau. Y neges a ddaeth drosodd oedd hapusrwydd y bobl yng nghanol eu tlodi i gymharu a'r pwysedd sy' ar bobl y gorllewin yn eu bywyd cysurus.

Rydyn ni mor ffodus i gael cynifer o'n haelodau ni'n hunain sy'n fodlon rhoi o'u hamser i rannu profiad. Os oes rhywun sy' heb gael y pleser o fod yn rhan o'r cwmni ag sydd a dwyawr yn rhydd ar brynawn Mawrth, yna trowch i mewn ac fe gewch groeso. Byddwn yn ail-ddechra'r tymor newydd ym mis Hydref.

Suliau 2010

MEHEFIN

- 6 Gwasanaeth Ardal,
Gogledd Ddwyrain Caerdydd
- 13 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 20 Dr Eirian Dafydd
- 27 Y Parchg. R. Alun Evans

GORFFENNAF

- 4 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
- 11 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
Swper Haf
- 18 Sul Cyfundeb
- 25 Y Parchg. R. Alun Evans

AWST

- 1 Efail Isaf (Cymun) [10.45]
- 8 Bethlehem
- 15 Efail Isaf [10.45]
- 22 Bethlehem
- 29 Efail Isaf [10.45]

MEDI

- 5 Miss Eurwen Richards
- 12 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 19 Y Parchg. Allan R. Pickard
- 26 Y Parchg. R. Alun Evans

HYDREF

- 3 Parchg. Jeff Williams
- 10 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 17 Y Parchg. W. J. Edwards
- 24 Y Parchg. R. Alun Evans
- 31 Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD

- 7 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
- 14 Yr Athro J. Heyward Thomas
- 21 Y Parchg. John Gwilym Jones
- 28 Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)

RHAGFYR

- 5 Ymweld â Chartref Henoed (bore).
(hwyr) *Naw Llith a Charol*
- 12 Gwasanaeth Nadolig y Plant (bore)
(5.00 pm) Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
- 19 (i'w gadarnhau)
- 25 [10.00am]: Gwasanaeth Bore Nadolig
- 26 Y Parchg. R. Alun Evans

**Gwasanaethau
am 10.30
oni nodir yn wahanol**



Dyma'r ail dro eleni i ni gofnodi oedfa fedydd ddwbl ym Methlehem! Y tro hwn – Gwen o Bontcanna a Steffan o Waelod-y-Garth oedd yn cael eu bedyddio ar Ebrill 11eg.

Uchod ac Isod: Ar y chwith gwelir Gwen, merch Sara a Rhodri Gibson Pontcanna (a chwaer fach i Mari) . Ar y dde mae Steffan, mab Rhian ac Alan Jones, Gwaelod-y-Garth (a brawd bach Osian, sydd wedi llwyddo i guddio rhag y camera, tu ôl i'w dad!)





Tyddewi!

a Huw yn
cyfarch ei
ffans!



Braf yw cael cofnodi fod Huw Roberts, Yr Eglwys Newydd wedi cyrraedd pen ei daith o dros 80 milltir o Llanddewi



Brefi i Eglwys Gadeiriol Tyddewi – er gwaetha'r holl wynt, glaw, cesair ac eira. Cafodd gefnogaeth arbennig ar hyd y daith gan ficeriaid, cyfeillion, meiri tref, Cristnogion a gwirfoddolwyr gyda thros 50 o gyd-gerddwyr yn ymuno am ran ola'r daith o Fesur y Dorth ger Croes-goch. Fel y gwelwch chi, uchod, roedd rhai o aelodau Bethlehem yn eu plith. Fe ddechreuodd y daith gyda bendith ac oedfa yn Eglwys Llanddewi Brefi gyda'r Parchedig Dyfrig Lloyd yn gwasanaethu a 50 o bobol yn y gynulleidfa ar fore Mawrth oer a gwyntog.

Yng ngeiriau Huw: “Er gwaetha'r tywydd ofnadwy, 'roedd yn braf cyrraedd y Gadeirlan yng nghwmni llawer o ffrindiau ac aelodau o'r teulu a cael fy nghrosawu gan y Deon, y Gwir Barchedig Jonathan Lean. 'Roedd rhannau o'r daith ar y dydd Gwener yn dipyn o her ar ôl rhedeg y 18 milltir o Flaenporth i Drewern ar y dydd Iau gyda'r chwaraewr rygbi Garin Jenkins. Braf oedd cael cwmni Hywel Jones, yn wreiddiol o Abergwaun, ac Eurfyl Lewis, o Llanglydwen, i gadw'r ysbryd a'r hwyliau ar y dydd Gwener.”

Roedd taith Huw yn codi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon, ac mae cyfanswm y casgliad wedi cyrraedd dros £10,700 –gan basio'i nod o ddeng mil o bunnau! Mae Huw'n dymuno diolch i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth. Rydyn ninnau'n ei longyfarch ar ei gamp.

Cydymdeimlwn

â'r canlynol:

- **Rhys Dafis**, Creigiau, wedi colli ewythr yn y Gogledd dros gyfnod Y Pasg.
- **Eirlys Davies**, Radyr, ar gollu modryb yn ardal y Brithdir.

Cofion at:

- Dr Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm, sydd wedi bod yn cael triniaeth yn ddiweddar.

Diolch i:

- **Wynford Ellis Owen** am roi cyflwyniad i ni am ei weledigaeth a'i waith gyda Chyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau eraill. Mae fersiwn Saesneg ei gofiant 'No Room To Live' bellach wedi ei gyhoeddi.



Cyngerdd Mai

(a bwffe ar Facebook!)

Uchafbwynt ein gweithgareddau tuag ein helusen Motor Neurone eleni oedd cyngerdd gydag Aelwyd Y Waun Ddyfal a disgyblion Ysgol Gwaelod-y-Garth. Mae Iwan Ellis, y Pennaeth, yn aelod gyda ni ynghyd â Tania Wilson Price, a arweiniai'r côr a'r partïon. Sara Gibson, aelod arall, oedd yn llywio'r noson.

Perfformiodd y plant, fel arfer, gyda sglein ac afiaith. Braf oedd gweld plant y capel ym mhlith y perfformwyr. Bu'r ail hanner yn nwylo'r Waun Ddyfal. Huw Foulkes yw eu harweinydd, ac roedd ei frwdfrydedd a'i wybodaeth gerddorol yn amlwg yn safon y côr.



Clo teilwng i'r noson oedd y darn "Tangnefeddwyr", a oedd, yng ngeiriau Alun ar y diwedd, yn gweddu'n eiriol a cherddorol i natur Idris, a fu farw o'r clefyd y llynedd. Gan fod arian yn dal i dreiglo i'r gronfa, mae Peredur Evans yn rhagweld ei bod hi'n realistig i ddweud y bydd y gronfa'n nesáu at £3000 pan ddaw hi'n adeg cyflwyno'r sic. [Wythnos ynghynt fe gofiwch i Trish Walker (ar y chwith) ddod i roi cyflwyniad byr yn yr oedfa am elusen Motor Neurone.]

Gyda llaw, mae Huw Foulkes, arweinydd y côr, wedi dweud ar Facebook, mai yng Ngwaelod-y-Garth y cafwyd y bwffe gorau erioed! Diolch i bawb am sicrhau noson gofiadwy.

Marian Evans

Croeso i Nia!



Fore Sul, Ebrill 11, derbyniwyd Nia Jones, sy'n enedigol o Bant-teg, Ystalyfera, fel aelod i'n plith.

Cyfeiriadau:

Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,

Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys
Newydd, Caerdydd CF14 2BW

Ffôn: 02920 520 854

e-bost: ralun.evans@virgin.net

Ysgrifennydd Bethlehem: Rhys Dafis

Ffôn: 029 20 89 13 60

e-bost: rhysdafis@aim.com